# BETH YW DYNEIDDIAETH?

## MAE DYNEIDDIAETH YN OLWG DIGREFYDD AR Y BYD NEU'N AGWEDD DDIGREFYDD AR FYWYD.


Mae'n cefnogi pobl i ateb cwestiynau am y byd, ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau am sut i fyw.

**Sut mae dyneiddiaeth yn wahanol i grefyddau?**

- Nid yw dyneiddwyr yn credu mewn duw.
- Nid oes ganddyn nhw lyfr sanctaidd.
- Nid oes ganddyn nhw addoldai fel eglwysi neu fosgiau.

**Tri pheth y mae dyneiddwyr yn eu credu**


1. Mae'r byd yn lle **naturiol** – dylem ni ofyn **cwestiynau** a chwilio am **dystiolaeth** i'n helpu i'w ddeall.
2. Dylem ni i gyd fod yn **rhydd** i ddod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud ni'n **hapus**.
3. Dylem ni fod yn **garedig** wrth bobl eraill, anifeiliaid a'r blaned.




Mae miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd yn rhannu credoau a gwerthoedd dyneiddiol.

Mae'r **Bod Dynol Hapus** yn symbol a gaiff ei ddefnyddio gan sefydliadau dyneiddiol ledled y byd. Mae'n cynrychioli dathlu bod yn ddynol – dathlu'r hyn y gall bodau dynol ei wneud a dathlu y gallwn ni fod yn hapus.







 © HUMANISTS UK 2021